Gwasanaeth
**Mabwysiadu**
Cenedlaethol

National
**Adoption**
Service

# Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

# Fframwaith Datblygu a Hyfforddi Ôl-Mabwysiadu y GMC

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae'r deunyddiau hyn wedi'u datblygu ar ran y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer teuluoedd mabwysiadol
- Eu diben yw i ddarparu adnodd datblygu a dysgu ar gyfer mabwysiadwyr ar ôl lleoli
- Gellir defnyddio'r offer hyn gan grwpiau neu gan unigolion.
- Mae llawer o wybodaeth yn y nodiadau o dan bob sleid felly mae'n bwysig darllen y rhain hefyd gan eu bod yn darparu gymaint mwy o wybodaeth a rhai syniadau defnyddiol o ran darllen pellach.

# Beth mae'n ei gynnwys?

Erbyn diwedd y sesiwn hon gobeithiwn y byddwch:

- Wedi meddwl am fannau y gallwch fynd i ofyn cwestiynau
- Yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r broses mabwysiadu
- Wedi cael cyfle i feddwl am anghenion plant sydd wedi'u mabwysiadu a sut y gallai hynny gael ei adlewyrchu yn eu hymddygiad.
- Wedi ystyried beth mae mabwysiadu'n ei olygu i chi yn ogystal â'r teulu ehangach

# Teulu Newydd

- Pan fydd pobl yn dewis dod yn rhieni mabwysiadol, mae aelodau eraill o’r teulu yn dod yn fodrybedd, ewythrod, neiniau a theidiau a chefndryd a chyfneitherod.
- Mae’n newid mawr i bawb, ac mae’n iawn bod â llawer o gwestiynau. Mewn gwirionedd i’r plentyn, os ydych chi’n eu deall nhw’n well mae’n ddefnyddiol iawn!

# Cymryd rhan!

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae awgrymiadau o www.gransnet.com yn cynnwys

"Dylech eu trin fel unrhyw un o'ch wyrion neu wyresau eraill"

"Dysgwch cymaint ag y gallwch"

"Meddyliwch sut i ateb cwestiynau gan ffrindiau sy'n meddwl y gorau"

"Cymerwch amser i ddod i arfer â'r syniad. Efallai y bydd gennych chi deimladau cymysg – mae hynny'n iawn"

"Dysgwch pa iaith sy'n iawn y dyddiau hyn"


# Helpu pethau i fynd yn dda

- Mae ymchwil yn dangos fod canlyniadau'n well i blentyn sydd
  - Â'r fantais o deulu y gallai uniaethu â nhw a theimlo'n ddiogel gyda nhw
  - Bydd hyn yn eu grymuso i deimlo'n hyderus a bod â hunan-barch
  - Byddant hefyd yn elwa ar berthynas gyda'r teulu ehangach ac mae perthnasau'n chwarae rhan enfawr yn hyn
  - Bydd y plentyn hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu diddordebau a gwireddu eu talentau
  - Yn ei dro, bydd hyn yn eu helpu i dyfu fel unigolyn ac yn y pen draw yn datblygu gwerthoedd cadarnhaol a bod yn gymwys yn gymdeithasol


# Mae'n iawn i ofyn…

- Dylai fod yn iawn i gyfarfod y gweithiwr cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r rhieni mabwysiadol i ofyn cwestiynau'n uniongyrchol iddyn nhw.
- Holwch yr asiantaeth mabwysiadu p'un a ydyn nhw'n rhedeg grwpiau, sesiynau gwybodaeth neu hyfforddiant i aelodau o'r teulu ehangach.
- Edrychwch ar-lein am wybodaeth a fforymau sy'n ymddangos yn ddefnyddiol i chi.

# Taith y Mabwysiadwr



# Taith y Plentyn



# Yn esgidiau'r plentyn

Allwch chi roi eich hun yn esgidiau'r plentyn… ..

- Sut ydych chi'n dychmygu yr oedden nhw'n teimlo pan ddaethant i fyw gyda'u gofalwyr maeth?
- Sut allent fod yn teimlo pan wnaethon nhw gysylltu gyda'u teuluoedd biolegol?
- Sut allent fod yn teimlo pan fyddant yn symud at eu teulu mabwysiadol?

# Rolau a chyfrifoldebau

- Pan fydd y plentyn yn mynd ar y llwybr cyfreithiol i gael ei fabwysiadu, mae nifer o bobl yn rhan o’r broses – gall hyn fod yn gymhleth.
- Ydych chi’n gwybod pwy yw’r bobl yma a beth maen nhw’n ei wneud?
  - Gweithiwr cymdeithasol y plentyn
  - Yr IRO
  - Darganfyddwr y teulu
  - Y gweithiwr cymdeithasol sy’n asesu
  - Y panel mabwysiadu

Ydych chi’n gwybod beth mae’r holl bobl hyn yn ei wneud?

# Profiad Bywyd y Plentyn

- Yn aml mae plant sy'n symud at deuluoedd mabwysiadol wedi cael profiadau cynnar gwael sydd wedi cynnwys esgeulustod a chamdriniaeth.
- Heb dystiolaeth bod y pethau hyn wedi digwydd, neu eu bod yn debygol o ddigwydd, ni fyddai'r awdurdod lleol wedi cael Gorchymyn Lleoli
- Gall meddwl am y pethau hyn wrth i chi ddod yn ffrindiau a dechrau caru eich ŵyr neu wyres, nith, nai ac ati arwain at lawer o deimladau gwahanol a nifer o gwestiynau.
- Gall rhianta plant gyda gorffennol mor anodd fod yn gymhleth a heriol ar adegau felly mae'n ddefnyddiol os byddwch chi'n gwybod ychydig hefyd.


# Effaith y blynyddoedd cynnar

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Meddyliwch am yr effaith ar fabi…

- Pan fydd ef/hi yn crio ac yn cael ymateb ar unwaith gan ofalwr
- Pan fyddant yn cael ymateb rhywfaint o'r amser
- Pan fydd ef/hi yn cael ychydig o ymateb yn iawn
- Pan fydd babi yn cael ymateb sydd yn dreisgar ac yn eu dychryn

# Anghenion plant mabwysiedig



# Negeseuon Allweddol

- Efallai y bydd y plentyn hwn angen dull rhianta gwahanol i'r hyn mae wedi arfer ag o
- Nid ydynt wedi cael profiad cynnar o gael oedolyn yn eu helpu i reoleiddio eu straen
- Mae theori ymlgyniad yn ein helpu i ddeall hyn
- Maen nhw angen dysgu ffyrdd newydd o ymddwyn nad yw'n cynnwys teimlo fel eu bod yn cael eu llethu.
- Gall perthnasau/eraill arwyddocaol yn y rhwydwaith gynnig llawer o gymorth i'r rhieni mabwysiadol yn ogystal â'r plant eu hunain
- Mae canlyniadau da yn gysylltiedig â phlentyn yn meddu ar rwydwaith cefnogi ehangach

# Trafodaeth

- “Roeddwn i’n barod i groesawu’r ferch fach hon i’r teulu, fel yr oeddwn wedi croesawu fy holl wyrion ac wyresau eraill ond ni chefais y cyfle gan fy mab. Fe wnaeth symud i mewn cyn i mi ei chyfarfod ac nid wyf yn meddwl i ni ddechrau ar y droed iawn wedi hynny. Roedd hi’n fy ngweld i fel rhywun oedd yn ymyrryd yn hytrach na rhywun oedd yn perthyn”
- “Cefais fy mrifo pan ddywedodd Jonathan wrthyf fi nad oeddwn i’n nain go iawn iddo fo, ond pan wnaeth fy mab egluro amdano gallwn weld nad oeddwn wedi fy mrifo cymaint ag yr oedd ef wedi’i frifo.”
- “Roeddwn i’n ofni pan fyddai Mam yn dod draw. Mae’n mynd dros ben llestri ac roeddwn i’n poeni y byddai hi’n ffysian drostyn nhw neu’n gofyn pethau iddyn nhw neu’n disgwyl iddyn nhw eistedd ar ei glin.”
- “Mae gen i Nain hen a Nain newydd ond dydw i ddim yn gwybod sut i’w gosod nhw gyda’i gilydd”
- “Rwy’n credu y gallwch ddysgu bod yn nain mabwysiadol ond nid yw’r un fath â phan y cefais fy nau o blant a’u neiniau yna o’r dechrau – yno yn yr ysbyty ac yn tyfu o hynny. Os yw eich plant sy’n oedolion yn mabwysiadu babi gallai fod yr un fath ond nid os ydynt yn dod pan maen nhw’n hŷn. Mae’n rhaid i chi ffitio mwy gyda’r hyn maen nhw ei angen. Rwyf wedi bod yn drist pan mae problemau gwirioneddol wedi codi ond allwch chi ddim ymyrryd. Mae’n rhaid i chi fod yno iddyn nhw, ond ni ddylech chi ddisgwyl gormod.”
- “Fe wnaethom gasglu’r wyrion ac wyresau i gyd at ei gilydd a gweithio allant sut i wneud i’r efeilliaid deimlo eu bod nhw’n perthyn.”

(Yn dod o:Related Through Adoption, Heidi Argent, CoramBAAF)

# Beth mae hyn  i gyd yn ei olygu i'r plant?

- O'r hyn rydych chi'n ei wybod – sut oedd pethau i'r plentyn pan oedden nhw'n byw gyda'u rhieni biolegol?
- Ceisiwch feddwl am sut y byddai'r plentyn wedi teimlo.
- Sut oedd hi (o safbwynt y plentyn) i gael ei symud o'r cartref hwn?
- Os yw hi'n haws meddwl am astudiaeth achos rydym wedi cynnwys un isod

# Felly beth allaf i ei wneud…

- Edrychwch ar animeiddiad Brighter Futures a gynhyrchwyd gan y sefydliad cefnogi Open Nest – mae’n fan cychwyn da ar gyfer meddwl beth sy’n ddefnyddiol a ddim mor ddefnyddiol i rieni mabwysiadol gan y rhai o’u hamgylch.
- Edrychwch ar y dudalen Adnoddau ar y wefan

www.theopennest.co.uk

# Neges Allweddol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- “Mae angen trin pob plentyn yn gyfartal, ond yn wahanol, i blant nad ydynt wedi’u mabwysiadu”
- Mae’r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Gellir dod o hyd i’r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Siaradwch gyda’ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth

- Mae’r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Gellir dod o hyd i’r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Siaradwch gyda’ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth